**LC1169**

| ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU | LEGISLATION COMMITTEE REPORT |
|---|---|

## The Avian Influenza (Preventive Measures in Zoos) (Wales) Regulations 2005

Diben y Rheoliadau yma yw rhoi ei effaith i Benderfyniad y Comisiwn 2005/744/EC, a'i gwnaeth yn ofynnol i'r Aelod-wladwriaethau gymryd mesurau priodol ac ymarferol i ostwng y risg y byddai ffliw adar yn cael ei drosglwyddo o adar sy'n byw yn y gwyllt i adar a allai gael eu heintio sy'n cael eu cadw mewn swau. Cafodd y Rheoliadau eu gwneud o dan y weithdrefn weithredol am 17.05 ar 28 Hydref 2005, a daethon nhw i rym am 17.20 ar y dyddiad hwnnw.

Mae'r Rholiadau'n rhoi swyddogaethau yn uniongyrchol i'r Gweinidog yn hytrach nag i'r Cynulliad. Roedd y diffyg dirprwyo effeithiol yn ystod y toriad ar ganol y tymor yn golygu mai dyna'r unig ffordd i sefydlu dulliau rheoli effeithiol yn ddi-oed.

## Rheol Sefydlog 11.7

Mae'r pwyntiau canlynol wedi'u nodi i fod yn destun adroddiad o dan Reol Sefydlog 11.7.

Mae'r diffiniad o "poultry" yn rheoliad 2 yn cynnwys yr ymadrodd: "for the purposes of any breeding programme for the production of breeding these categories of birds". Mae'r rheoliadau cyfochrog, The Avian Influenza (Preventive Measures) (Wales) Regulations 2005, yn defnyddio'r ymadrodd "for the purposes of any breeding programme for the production of these categories of birds" a dyna a fwriadwyd

yn yr achos yma mae’n debyg. Er gwaethaf y camgymeriad, mae’r bwriad yn eglur. [Rheol Sefydlog 11.7(v)]

Mae rheoliad 4(3)(b) yn cychwyn gyda’r ymadrodd "susceptible birds must be exposed". Bernir y dylai hyn ddarllen "susceptible birds must not be exposed". Serch hynny, mae’r ddarpariaeth yma yn un mewn rhestr o ofynion a all gael eu cynnwys mewn datganiad neu mewn hysbysiad cyfyngiadau "as he or she considers necessary", ac felly mae’n bosibl i effaith andwyol y gwall gael ei hatal. [Rheol Sefydlog 11.7(v)]

Mae’r gwallau hyn wedi’u derbyn ar ran y Gweinidog. Mân wallau drafftio neu fân wallau teipograffyddol ydyn nhw ac fe fyddai wedi bod yn briodol eu cywiro trwy gyfrwng Memorandwm Cywiriadau. Gan fod y Rheoliadau wedi’u gwneud o dan y weithdrefn weithredol, fe fydd angen deddfu er mwyn eu gwneud yn iawn. Er na fernir bod angen gweithredu ar unwaith, fe ddylai’r newidiadau gael eu cynnwys yn y rheoliadau nesaf a gaiff eu gwneud mewn perthynas â ffliw adar.

Yn uniaith Saesneg y cafodd y Rheoliadau eu gwneud. Bu’n rhaid i’r Rheoliadau gael eu gwneud ar fyrder ac felly daeth y Gweinidog i’r casgliad nad oedd yn rhesymol ymarferol eu gwneud yn ddwyieithog. [Rheol Sefydlog 11.7(viii)]

## Glyn Davies AC

Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau

## 22 Tachwedd 2005